Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Chwefror 2024

## 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 mewn cysylltiad â'r meysydd polisi yn ein cylch gwaith.

**2.** Ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid, ac adroddiadau pwyllgorau eraill y Senedd, bwriedir i'r adroddiad hwn lywio dadl y Senedd ar y gyllideb ddrafft, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 6 Chwefror 2024.

**3.** Byddem yn croesawu ymateb i'n hadroddiad an hargymhellion.

### Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

**4.** Ar 19 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Cyhoeddwyd y setliad llywodraeth leol dros dro ar 20 Rhagfyr 2023.

**5.** Y Prif Grwpiau Gwariant sy'n dod o fewn ein cylch gwaith yw Cyllid a Llywodraeth Leol a Newid Hinsawdd. Y meysydd buddsoddi penodol o fewn y prif grwpiau gwariant hyn sy'n berthnasol i'n cylch gwaith ni yw Llywodraeth Leol a Thai.

### Dull gweithredu'r Pwyllgor o ran craffu

**6.** Ar 18 Ionawr 2024, clywsom dystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLlLC") a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol mewn cysylltiad â'r setliad Llywodraeth Leol dros dro ac agweddau ar y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â llywodraeth leol. Hefyd fe glywsom dystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn cysylltiad ag agweddau ar y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â thai.[1]

**7.** Daeth Adam Price AS i'r cyfarfod ar 18 Ionawr yn lle Luke Fletcher AS. Daeth Mabon ap Gwynfor AS i'r cyfarfod ar 31 Ionawr yn lle Luke Fletcher AS.

## 2. Llywodraeth leol

### Cyd-destun ariannol llywodraeth leol

**8.** Mae pwysau'r cynnydd sydyn a digynsail mewn costau ynni, nwyddau a deunyddiau ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, a nodwyd gennym yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24,[2] yn parhau. Mae'r rhain yn ychwanegu at yr heriau sy'n cynnwys chwyddiant cyflog, galw mawr am wasanaethau cost uchel (fel gofal cymdeithasol) a'r broses o geisio adfer ar ôl y pandemig.

**9.** Mae papur tystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi bod arolwg llawn o gynghorau a gwasanaethau tân ac achub a gynhaliwyd ym mis Awst / Medi 2023 yn cadarnhau pwysau cyllidebol o £720 miliwn yn 2024-25, a fyddai'n golygu "cynnydd gwariant o bron i 10% mewn gwariant refeniw net".

**10.** Nodir yn nhystiolaeth CLlLC:

> *"Gyda'i gilydd, mae'r pwysau sy'n cronni yn y system, a'r bwlch yn y gyllideb sy'n deillio o hynny, yn golygu bod y rhagolygon yn hynod o llwm a bydd yr opsiynau ar gyfer llawer o wasanaethau lleol yn annymunol."*[3]

**11.** Nododd datganiad gan y Gweinidog sy'n cyd-fynd â'r setliad llywodraeth leol:

[1] Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion (CyT)
[2] Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023
[3] Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1

> *"Rydym wedi gweithio'n agos gyda llywodraeth leol drwy gydol y flwyddyn, ac rydym yn deall y pwysau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu. Rwy'n falch o'r berthynas weithio rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos drwy CLlLC.*
>
> *Mae'r galw am wasanaethau, ochr yn ochr â phwysau costau, a achosir gan chwyddiant sydd yn gyson uchel, yn golygu y bydd angen i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau anodd am wasanaethau, arbedion effeithlonrwydd a'r dreth gyngor wrth iddynt osod eu cyllidebau."*[4]

**12.** Pwysleisiodd cynrychiolwyr CLlLC yr heriau, gan ddisgrifio'r sefyllfa bresennol yn un nad ydym wedi wynebu ei thebyg. Dywedodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn wrthym:

> *"… mae hwn yn greisis, a dwi yn credu, os nad oes yna unrhyw newid mewn ariannu gwasanaethau cyhoeddus, yna mi fydd yna lai o wasanaethau cyhoeddus, yn sicr, i'r dyfodol."*[5]

**13.** Rhybuddiodd y Cynghorydd Jane Gebbie y byddai angen gwneud penderfyniadau rhwng yr hyn sy'n gyfystyr â gwasanaethau statudol ac anstatudol, sy'n golygu y gallai gwaith pwysig fel ymyrraeth gynnar ac atal fod mewn perygl, a dywedodd y Cynghorydd Charlie McCoubrey:

> *"I don't mind making difficult choices, but we're actually being asked to make bad choices, choices that will have an impact in the long term."*[6][7]

**14.** Cydnabu'r Gweinidog yr anawsterau sy'n wynebu'r sector:

> *"I know that there would be things that local government would want to do more in the preventative space that they're just not going to be able to do because they are so busy responding to the existing need that is right there before them now, in terms of the pressures on social care, and so on. But I think, until we get the funding that we need to be able to meet*

---

[4] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2024-25, 20 Rhagfyr 2023
[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 17
[6] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 23
[7] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 28

> *all of those service pressures, then there will be these really tough trade-offs, unfortunately."*[8]

## Cydnerthedd ariannol

**15.** Daeth cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol i'r amlwg yn ddiweddar, gyda chynghorau amrywiol yn Lloegr yn datgan eu bod yn 'fethdalwyr' trwy gyhoeddi hysbysiadau adran 114. Yn dechnegol, ni all awdurdodau lleol fynd yn fethdalwyr, ond mae cyhoeddi hysbysiad adran 114 yn golygu na all awdurdod fantoli ei gyfrifon, ac na chaniateir gwariant newydd ac eithrio gwasanaethau statudol.

**16.** Mae Archwilio Cymru, yn ei adroddiad yn 2021, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol – Effaith COVID -19, Adferiad a Heriau yn y Dyfodol, yn nodi, yng Nghymru:

> *"Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n dangos cymhareb hylifedd ffafriol a sefydlog (y gymhareb rhwng eu hasedau cyfredol a'u rhwymedigaethau cyfredol) sy'n awgrymu bod y cynghorau hynny mewn sefyllfa dda i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfredol."*[9]

**17.** Fodd bynnag mae rhai cynghorau yng Nghymru yn dangos cymhareb hylifedd gymharol isel yn ôl Archwilio Cymru, gan ddweud "ynddo'i hun, nid yw hyn yn broblem yn arbennig". Er hynny, pe bai lefelau cronfeydd wrth gefn yn mynd yn isel ac arbedion heb eu cyflawni gan gynghorau, gallai hyn, gyda'i gilydd, "ddynodi diffyg cydnerthedd".

**18.** Mae CLlLC yn nodi y bu "diddordeb o'r newydd yng ngwydnwch ariannol awdurdodau lleol"dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Ychwanegodd CLlLC "Yn ôl CIPFA, gall achosion methiant fod yn gymhleth gydag un digwyddiad yn arwain rhai at gyhoeddi hysbysiadau a114". Er nad oes awgrym ar hyn o bryd bod unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru yn agos at sefyllfa o'r fath, cadarnhaodd CLlLC:

> "*Mae gan ein haelodau ein hunain fwy o ymwybyddiaeth a diddordeb yn y mater a'r hyn y gellir ei wneud i atal methiant ariannol.*"[10]

---

[8] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 181
[9] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol - Effaith COVID-19, Adferiad a Heriau'r Dyfodol, Medi 2021
[10] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1

**19.** Ar wahân i hyn, mae nodyn briffio gan Dadansoddi Cyllid Cymru yn nodi ei bod yn ymddangos bod cyllid awdurdodau lleol ar lwybr anghynaladwy, hyd yn oed os yw awdurdodau lleol yn defnyddio cronfeydd wrth gefn, yn cynyddu'r dreth gyngor mwy na 5 y cant, ac yn derbyn cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru.[11]

**20.** Cytunodd y Gweinidog y dylem ni i gyd fod yn ystyriol a dylem fod yn bryderus ynghylch cydnerthedd mewn cynghorau, ond nododd na fyddai cyhoeddi hysbysiad adran 114 yn:

> *"open up a separate pot of money—there is no pot of money—so it doesn't solve any problems in that sense. What we should be looking to do is make sure that local authorities take advantage of the improvement funding that we have available and to take advantage of the other ways in which Welsh Government can support."*[12]

### Ein barn ni

**21.** Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu un o'r setliadau cyllideb mwyaf heriol yn y cyfnod diweddar, yn ystod cyfnod o bwysau gwario cynyddol ar gyllid cyhoeddus.

**22.** Mae'n destun pryder clywed bod awdurdodau lleol mewn sefyllfa o orfod gwneud nid yn unig penderfyniadau anodd, ond "dewisiadau gwael", a fydd, heb os, yn cael effaith ar gynaliadwyedd tymor hirach gwasanaethau. Mae cynllunio tymor hir yn cael ei wneud yn arbennig o anodd wrth i awdurdodau lleol ganolbwyntio eu sylw ar reoli'r heriau sy'n eu hwynebu yn y tymor byr. Rydym yn sylweddoli bod angen i awdurdodau lleol ymateb i bwysau ar unwaith, ond rydym yn pryderu bod cyfeirio adnoddau er mwyn ymdrin ag ymyriadau tymor byr yn cyfyngu ar eu gallu i ariannu'r gwaith ataliol tymor hwy, gan gynnwys angen i gyflawni nodau llesiant Llywodraeth Cymru.

**23.** Rydym yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol yn wynebu cyllidebau tynn gyda chronfeydd wrth gefn cyfyngedig fel rhwyd ddiogelwch. Rydym yn cytuno y gallai pwysau ychwanegol, ar brydiau o ganlyniad i benderfyniadau a

[11] Dadansoddi Cyllid Cymru, Rhagolygon cyllidol tymor canolig ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, Hydref 2023
[12] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 176

wneir gan gyrff cyhoeddus mewn sectorau eraill, arwain yn hawdd at sefyllfa o ystyried hysbysiad adran 114.

**24.** Rydym yn nodi bod y Gweinidog a'i swyddogion yn cynnal sgyrsiau rheolaidd gyda llywodraeth leol, ac rydym yn croesawu hynny. Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn parhau a dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n fanwl iawn y sefyllfa mewn awdurdodau unigol a allai fod yn llai cydnerth yn ariannol nag eraill. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gael cynllun clir ar waith i roi cymorth cynnar i unrhyw awdurdod yn y sefyllfa o orfod ystyried cyhoeddi hysbysiad adran 114, i osgoi cymryd camau o'r fath.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gyda llywodraeth leol a datblygu cynllun clir i roi cymorth cynnar i unrhyw awdurdod lleol sy'n profi anawsterau ariannol penodol, gyda'r nod o atal yr angen i gyflwyno hysbysiad adran 114.

## Y setliad llywodraeth leol dros dro

### Cyllid Allanol Cyfun

**25.** Ar 20 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad llywodraeth leol dros dro.[13] Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, mae'r cyllid craidd cyffredinol (Cyllid Allanol Cyfun (AEF)) ar gyfer llywodraeth leol yn 2024-25 yn £5.69 biliwn, sef cynnydd o 3.1 y cant ar sail gyfatebol o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol bresennol (2023-24). Mae hyn yn cyfateb i £169.8 miliwn yn ychwanegol mewn cyllid cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol.

**26.** Yn 2023-24, y cynnydd cyffredinol mewn AEF oedd 7.9 y cant ar sail gyfatebol, sy'n cyfateb i £403 miliwn, gyda'r cynnydd hyd yn oed yn uwch yn 2022-23 sef 9.4 y cant.

**27.** Mewn datganiad yn gysylltiedig â'r setliad, nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi:

> *"blaenoriaethu diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cyn belled ag y bo modd; sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf a blaenoriaethu swyddi, lle bynnag y bo hynny'n bosibl."*[14]

[13] Llywodraeth Cymru, Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2024-25, Rhagfyr 2023
[14] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2024-25, 20 Rhagfyr 2023

**28.** Mae papur y Gweinidog yn tynnu sylw at yr ystod eang o wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol, gan nodi bod y rhain yn aml "i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas neu'r rhai sydd dan anfantais economaidd."Mae'r papur yn nodi bod Llywodraeth Cymru felly wedi "diogelu'r setliad llywodraeth leol drwy gynnal y cynnydd arfaethedig o 3.1% rhwng 2023-24 a 2024-25".[15]

## Grant Cynnal Refeniw

**29.** Y Grant Cynnal Refeniw yw grant heb ei neilltuo Llywodraeth Cymru a ddosberthir i awdurdodau lleol drwy fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Cyfanswm y cymorth cyllid grant sydd ar gael i awdurdodau lleol yn 2024-25 yw £4.551 biliwn. Mae hyn yn cynnwys £1.3 miliwn o gyllid atodol i sicrhau nad oes unrhyw awdurdod yn derbyn llai na chynnydd o 2 y cant. Y ffigur cyfatebol ar gyfer 2023-24 yw £4.504 biliwn.

**30.** Mae'r Gweinidog yn nodi yn ei phapur tystiolaeth bod "gostyngiad o £37 miliwn yn y llinell sylfaen ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw,"ond bod cynnydd cyfatebol mewn rhagolygon Ardrethi Annomestig yn golygu nad oes "unrhyw effaith ar y cyllid cyffredinol heb ei neilltuo (AEF) sydd ar gael i awdurdodau lleol".[16]

## Ardrethi annomestig

**31.** Mae ardrethi annomestig a elwir yn ardrethi busnes yn ffurfio rhan sylweddol o'r cyllid refeniw craidd (AEF) y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddyrannu i lywodraeth leol. Dosberthir hwn, ynghyd â'r grant cynnal refeniw, i'r 22 o awdurdodau lleol drwy'r fformiwla gyllido.

**32.** Am y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi rhewi'r lluosydd ardrethi annomestig. Mae'r lluosydd yn rhan annatod o'r broses o bennu biliau talwyr ardrethi. Ar gyfer 2024-25, bydd y lluosydd ardrethi annomestig yn cynyddu 5 y cant ar gyfer pob busnes sy'n talu ardrethi yng Nghymru. Mae £18 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r setliad cyffredinol i gapio'r cynnydd, yn hytrach na'i bennu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar 6.7 y cant.

**33.** Ar 1 Ebrill 2023, daeth rhestr ardrethi annomestig newydd i rym. Mae ailbrisio eiddo annomestig fel arfer yn digwydd bob pum mlynedd. Yn ystod pob ailbrisiad, rhoddir gwerth ardrethol newydd i bob eiddo yn seiliedig ar

[15] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 2
[16] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 2

werthoedd rhent cyfredol er mwyn sicrhau bod rhwymedigaeth yn cael ei lledaenu'n deg rhwng trethdalwyr.

**34.** Mae'r Gweinidog wedi dyrannu £113 miliwn yn 2023-24 i helpu trethdalwyr gyda rhyddhad trosiannol i'r rheini yr oedd eu rhwymedigaeth yn cynyddu mwy na £300 o ganlyniad i ailbrisio. Roedd hyn yn sicrhau bod trethdalwyr yn talu 33 y cant o'u rhwymedigaeth ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf, a 66 y cant yn yr ail flwyddyn.] Ar gyfer 2024-25, dyrannwyd £38 miliwn i gefnogi trethdalwyr yn ystod y cyfnod trosiannol.

**35.** Mae'r Gweinidog hefyd wedi dyrannu £78 miliwn i gefnogi'r sector manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda'u biliau ardrethi annomestig, gan ddarparu rhyddhad ardrethi o 40 y cant. Dyma'r pumed flwyddyn o gymorth rhyddhad ardrethi i'r sector penodol hwn, fodd bynnag, mae hyn yn sylweddol is na'r £143.9 miliwn a ddyrannwyd yn 2023-24, a oedd yn darparu rhyddhad ardrethi o 75 y cant.

**36.** Roedd dyraniad y Llinell Wariant yn y Gyllideb ddangosol ar gyfer rhyddhad ardrethi yn 2024-25 i fod i ostwng i £27.7 miliwn, ond mae dyraniad o £60 miliwn mewn cyllid canlyniadol wedi rhoi hwb i ryddhad ardrethi ar gyfer y flwyddyn i ddod. Aeth £51 miliwn o gyllid canlyniadol yn uniongyrchol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer rhyddhad ardrethi, gyda £9.27 miliwn wedi'i drosglwyddo i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru. Roedd hyn, yn ôl y Gweinidog, i sefydlu "llinell sylfaen digonol o gyllid" ar gyfer y cyrff hyn ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a bydd yn:

> *"… cefnogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru i weithredu'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), yn enwedig y darpariaethau sy'n ymwneud ag ailbrisiadau rheolaidd neu amlach ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig."*[17]

## Y dreth gyngor

**37.** Nododd cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eu bod wedi gwneud y penderfyniad anodd i gynyddu cyfraddau treth y cyngor i helpu i ariannu gwasanaethau, a'r "adlach" gyhoeddus o ganlyniad. Dywedodd y Cynghorydd McCoubrey:

[17] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 2

> *"People are being asked to pay more in council tax for fewer and fewer services, and not surprisingly they're very, very unhappy about it."*[18]

**38.** Nododd y Gweinidog fod codi'r dreth gyngor "yn benderfyniad lleol pwysig iawn" ac ychwanegodd:

> *"even with the difficult settlements that we've had lately, council tax still remains, on average, lower in Wales than in England. I think that speaks to the relative priority that we've given to local government in recent years in terms of our settlements"*

**39.** Tynnodd y Gweinidog sylw at gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor i gefnogi pobl ar incwm isel gyda biliau'r dreth gyngor, ond nododd fod "nifer fawr o bobl o hyd sy'n gymwys i gael cymorth gostyngiadau'r dreth gyngor ond nad ydynt yn ei hawlio".[19] Eglurodd:

> *"this is an important part of the work that the Minister for Social Justice is leading in terms of the benefits charter. [...]working alongside local government to make sure that people are getting everything that they're entitled to, but, more importantly, even, or as importantly, doing so in a way that is simple for the individual and that doesn't mean that people are falling through gaps because they aren't aware of the support."*[20]

**40.** Ysgrifennodd y Gweinidog atom ar 29 Ionawr â rhagor o fanylion am y gwaith diweddar I hyrwydd cymorth â'r dreth gyngor, a oedd yn cynnwys hysbysebion wedi'u targedu a slipiau ymwybyddiaeth I'w cynnwys mewn llythyrau atgoffa a gwysiadau treth gyngor.[21]

## Ein barn ni

**41.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2023-24, rydym yn cydnabod bod gwneud penderfyniadau ynghylch y dreth gyngor yn heriol i awdurdodau lleol yng ngoleuni'r pwysau ehangach sy'n cael eu teimlo gan aelwydydd. Mae'r cydbwysedd o godi'r dreth gyngor i sicrhau cyllid ar gyfer

[18] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 27
[19] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 148
[20] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 151
[21] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Papur 1

darparu gwasanaethau hanfodol ac ar yr un pryd sicrhau bod codiadau'n fforddiadwy i drethdalwyr, bob amser yn heriol, ond yn enwedig pan fydd cyllid yn dynn iawn. Rydym yn cydnabod, o ystyried y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol ar hyn o bryd, fod codiadau'r dreth gyngor yn anochel. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd y gallai y cynnydd mewn treth gyngor eleni fod yn sylweddol uwch na mewn blynyddoedd blaenorol, gan roi baich ychwanegol ar dalwyr treth gyngor. Mae cynaliadwyedd cynnydd o'r fath mewn cyfraddau yn yr hirdymor i aelwydydd dan bwysau yn bryder gwirioneddol i'r Pwyllgor. Mae sicrhau bod cynghorau yn agored â'u preswylwyr ynghylch y penderfyniadau y maent yn eu gwneud am gynnydd i'r dreth gyngor yn bwysig er mwyn cynnal ymddiriedaeth a darparu atebolrwydd lleol cadarn.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i asesu effaith hirdymor cynnydd uchel yn y dreth gyngor ar aelwydydd ac os yw'n fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

**42.** Nodwn nad yw'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 202-25, wedi'i gynyddu unwaith eto, gan aros felly ar yr un lefel ers degawd. Fel y dywedom mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n destun pryder nad yw pawb sy'n gymwys i gael cymorth gyda'r dreth gyngor yn hawlio'r cymorth hwnnw. Fe wnaethom argymell yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer2023-24 y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'i hymgyrch i godi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau sydd ar gael i drigolion, gan gynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, i asesu ei heffeithiolrwydd o ran cyrraedd trigolion cymwys. O ystyried nad yw'r budd-dal yn cael ei hawlio gan nifer fawr o bobl gymwys, mae'n amlwg bod angen rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth.

**43.** Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar Siarter Budd-daliadau Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, ac yn nodi bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cofrestru fel partneriaid. Fodd bynnag, byddem yn croesawu mwy o fanylion ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn sicrhau bod ymwybyddiaeth o gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yn cael ei godi drwy'r gwaith hwn. Credwn y bydd monitro effeithiolrwydd y Siarter yn allweddol, ac yn nodi y bydd fframwaith gwerthuso yn cael ei ddatblygu. Rydym yn ymwybodol y bydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn gwneud datganiad i'r Senedd ar 20 Chwefror ar System Fudd-daliadau a Siarter Cymru a gobeithiwn y bydd hwn yn rhoi rhagor o eglurder. Gobeithiwn y bydd y Siarter yn cyflawni ei nod o godi ymwybyddiaeth ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r

wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei effeithiolrwydd. Byddem yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y bobl gymwys sy'n hawlio gostyngiadau'r dreth gyngor wrth graffu ar gyllideb y flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y Siarter Budd-daliadau Cymru, yn benodol yr adborth gan y grŵp llywio ac ar y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod pawb sydd â hawl i gymorth gyda biliau'r dreth gyngor yn ei dderbyn. Dylid cael u diweddariad hwn erbyn diwedd tymor yr haf.

## Cyllid gwaelodol

**44.** Mae dyraniadau cyllid gwell na'r disgwyl dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi negyddu'r angen am gyllid gwaelodol. Fodd bynnag, gyda'r setliad llywodraeth leol yn cynyddu 3.1 y cant ar gyfartaledd, roedd rhai awdurdodau lleol mewn perygl o weld y cynnydd lleiaf.

**45.** Er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw awdurdod yn derbyn llai na 2 y cant o gynnydd yn eu cyllid, dyrannodd y Gweinidog £1.3 miliwn yn ychwanegol i'r grant cynnal refeniw. Mae'r penderfyniad ar y cyllid gwaelodol yn un a gymerir gan y Gweinidog, yn seiliedig ar ganlyniad terfynol y fformiwla gyllido.

**46.** Cynigiodd y Cynghorydd Lis Burnett y dylid defnyddio'r cyllid gwaelodol;

> *"I think the one thing that we all agree on is that we need to use the floor more regularly, because there are situations where, for some disparate reason, a local authority is adrift of everybody else in terms of funding, and so that needs to be part of the process to make sure that they are not at a level below which they can sustainably deliver services."*[22]

**47.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn eithaf prin i Lywodraeth Cymru hyd yn oed ystyried darparu cyllid gwaelodol ar adeg pan fo cyllidebau yn cynyddu, ond bod yr amgylchiadau eithriadol eleni wedi eu harwain i ailfeddwl. O ran cyrraedd y ffigur o 2 y cant, esboniodd y Gweinidog:

> *"When we ran the numbers and saw that there were a couple of authorities under 2 per cent, that did seem that it was going*

[22] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 59

*to be far too challenging for those authorities, and that made the decision, really, to increase the funding by £1.3 million.*

*We did look at other options, and ultimately we have to consider what's affordable to the Welsh Government. If we were to increase it to 2.5 per cent, that would have cost £5.7 million. So, this £1.3 million came from the work that we did to reduce budgets across all main expenditure groups."*[23]

## Dosbarthiad awdurdodau lleol

**48.** Bydd awdurdodau lleol yn derbyn cynnydd o 3.1 y cant ar gyfartaledd fel rhan o'r setliad hwn. Mae hyn yn sylweddol is na'r cynnydd cyffredinol o 9.3 y cant a dderbyniwyd yn 2022-23 a 7.9 y cant a dderbyniwyd yn 2023-34.

**49.** Yr awdurdodau sy'n derbyn y cynnydd mwyaf yn y flwyddyn ariannol nesaf fydd Casnewydd (4.7 y cant) a Chaerdydd (4.1 y cant). Bydd Sir Fynwy, a oedd y buddiolwr mwyaf y rownd gyllideb flaenorol (9.4 y cant 2023-24) yn derbyn cynnydd o 2.3 y cant y tro hwn.

**50.** Mae dau awdurdod (Conwy a Gwynedd) wedi cael cymorth gyda chyllid ychwanegol o £1.3 miliwn drwy'r cyllid gwaelodol.

**51.** Yn gyffredinol, bydd 14 o awdurdodau'n cael cynnydd cyfartalog neu is y flwyddyn nesaf.

**52.** Mae'r tabl isod yn dangos swm dros dro yr AEF y bydd pob awdurdod lleol yn ei gael yn 2024-25, a'r gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol.[24]

Newid mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ynghyd ag ychwanegiad cyllid, heb ei addasu ar gyfer trosglwyddiadau, yn ôl awdurdod unedol (£000)

| Awdurdod Unedol | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2023-24 | Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2024-25 | Newid fel canran | Rheng |
|---|---|---|---|---|
| Casnewydd | 289,306 | 302,973 | 4.7% | 1 |

[23] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraffau 186-187
[24] Llywodraeth Cymru, Refeniw llywodraeth leol a dosbarthiad setliad cyfalaf dros dro 2024 i 2025, Tabl 1b. Mae'r tabl wedi'i addasu i ddangos y gwahaniaeth canrannol mewn trefn, o'r uchaf i'r isaf

| Awdurdod Unedol | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2023-24 | Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2024-25 | Newid fel canran | Rheng |
|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 594,712 | 618,959 | 4.1% | 2 |
| Abertawe | 417,588 | 433,590 | 3.8% | 3 |
| Sir Ddinbych | 187,785 | 194,744 | 3.7% | 4 |
| Merthyr Tudful | 118,886 | 122,923 | 3.4% | 5 |
| Torfaen | 172,265 | 177,989 | 3.3% | 6 |
| Sir Gaerfyrddin | 338,439 | 349,441 | 3.3% | 7 |
| Wrecsam | 224,722 | 231,963 | 3.2% | 8 |
| Bro Morgannwg | 202,631 | 208,896 | 3.1% | 9 |
| Pen-y bont ar Ogwr | 250,557 | 257,978 | 3.0% | 10 |
| Powys | 228,558 | 234,940 | 2.8% | 11 |
| Castell-nedd Port Talbot | 276,915 | 284,624 | 2.8% | 12 |
| Rhondda Cynon Taf | 471,049 | 484,112 | 2.8% | 13 |
| Ceredigion | 129,341 | 132,715 | 2.6% | 14 |
| Blaenau Gwent | 139,809 | 143,433 | 2.6% | 15 |
| Sir Benfro | 212,626 | 217,999 | 2.5% | 16 |
| Ynys Môn | 123,866 | 126,973 | 2.5% | 17 |
| Sir Fynwy | 122,561 | 125,355 | 2.3% | 18 |
| Caerffili | 340,037 | 347,726 | 2.3% | 19 |
| Sir y Fflint | 251,959 | 257,555 | 2.2% | 20 |
| Gwynedd | 227,541 | 232,092 | 2.0% | 21 |
| Conwy | 198,736 | 202,710 | 2.0% | 21 |

| Awdurdod Unedol | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2023-24 | Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2024-25 | Newid fel canran | Rheng |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Awdurdodau Unedol | 5,519,889 | 5,689,689 | 3.1% | |

**53.** Roedd barnau cynrychiolwyr CLlLC ar y fformiwla gyllido yn amrywio. Dywedodd y Cynghorydd Siencyn wrthym:

> *"Y gwir amdani yw bod angen cynyddu'r pot, nid ystyried sut rydyn ni'n ei ddosbarthu. [...] Mae'r is-grŵp cyllid yn ystyried y fformiwla bob blwyddyn ac mae yna addasiadau'n cael eu gwneud. Mae'n drafodaeth rydyn ni'n ei chael yn gyson o fewn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: a ddylem ni fod yn edrych ar y fformiwla yn llwyr? Mae yna ddadl dros wneud hynny, ond, wrth gwrs, beth dydyn ni ddim yn gwybod yw beth fydd canlyniadau adolygiad o'r fath yna. [...] Dyna yw'r cafeat yn fan hyn, onid e? Os ydych chi'n mynd i adolygu'r fformiwla, dydy pawb ddim yn mynd i fod yn hapus."*[25]

**54.** Nododd fod yna adolygiadau blynyddol, ac mai penderfyniad diweddar gan aelodau CLlLC yw "ein bod ni ddim yn gwneud adolygiad llawn o'r fformiwla", ond eu bod yn "cadw llygad mwy manwl ar yr adolygiadau blynyddol sydd yn digwydd".

**55.** Cytunodd y Cynghorydd McCoubrey nad yw'r pot yn ddigon mawr, ond dadleuodd fod yna:

> *"frustration about the actual formula itself—whether it was fit for purpose back in the day, compared with the situation that we're facing now. There's frustration about the data that goes into that funding formula and, fundamentally, I would just like somebody to explain to me why it costs 15 per cent more to deliver services over the border in Denbighshire than it does in Conwy."*[26]

[25] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraffau 61-63
[26] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 66

**56.** Fe wnaeth y Cynghorydd McCoubrey gydnabod nad oes "byth fformiwla berffaith", ond bod "rhaid i chi edrych ar yr ateb mae'n ei greu". Awgrymodd y gellid edrych ar y "model yn yr Alban "fel enghraifft, gan ddweud:

> *"The Scottish funding formula has about 200 lines in it, which are mostly needs based; the Welsh one has 70. I think it's a very crude way of distributing money."*[27]

**57.** Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

> *"Some of this is sometimes about misunderstanding. There is some data in the formula that is 2001, but, actually, the stuff that drives most of it is updated annually.[…] the formula provides an unhypothecated total, so a local authority can choose to devote its resources how it needs to, reflecting its local needs. The formula is derived from measures of what the local authorities have spent."*[28]

**58.** Ychwanegodd y swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer yn flaenorol ar effaith y gwahanol ddangosyddion. Eglurodd:

> *"We ranked the indicators by the difference they made to the formula, and at the time, a good few years ago now, actually, I was suggesting that we should cut off the number of indicators, because when you get to the last 10 per cent of indicators, they distribute very small amounts of money, so having lots more indicators wouldn't necessarily make big differences to the way the formula operates and the distribution. The bulk of it is distributed by client measures, and those things are the ones like the numbers of school kids, numbers of people claiming, numbers of people in different age bands. Road lengths is also another client measure. So, I don't think increasing the number of indicators would necessarily help."*

[27] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 66
[28] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 189

**59.** Ychwanegodd y swyddog, fodd bynnag, fod swyddogion Llywodraeth Cymru i fod i siarad â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban yn fuan ac y byddent yn manteisio ar y cyfle hwnnw i gael trafodaeth yno.[29]

## Grantiau Refeniw Penodol

**60.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu dros £1.374 biliwn mewn grantiau refeniw penodol ar gyfer 2024-25 yn y gyllideb ddrafft. Mae hyn yn debyg i'r dyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 (£1.367 biliwn), a gynyddodd wedyn i £1.417 biliwn erbyn y Gyllideb Derfynol.

**61.** Y ffigur alldro ar gyfer grantiau penodol yn 2023-24 oedd ychydig dros £1.46 biliwn ar sail gyfatebol, gan awgrymu cyllid ychwanegol sylweddol yn ystod y flwyddyn.

**62.** Rhoddir crynodeb o grantiau fesul portffolio Gweinidogol isod. Bydd gwerthoedd grant penodol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar y fenter bolisi a pha un a yw'n sensitif o ran amser. Nid yw'r gwerthoedd grant dangosol wedi'u cwblhau, gan fod dyfodol rhai grantiau yn parhau i gael eu hystyried.[30]

Rhestr a symiau amcangyfrifedig o Grantiau ar gyfer gyfan Cymru (£000)

| Enw Portfolio a Grant | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---:|---:|
| Cyfanswm Y Gymraeg ac Addysg | 619,582 | 620,735 |
| Cyfanswm Newid Hinsawdd | 380,077 | 346,954 |
| Cyfasnwm Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 280,110 | 250,501 |
| Cyfanswm Cyllid a Llywodraeth Leol | 130,382 | 79,530 |
| Cyfanswm Iechyd Meddwl a Llesiant | 42,063 | 44,063 |
| Cyfanswm Yr Economi | 31,593 | 24,489 |

[29] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 197
[30] Llywodraeth Cymru, Refeniw llywodraeth leol a dosbarthiad setliad cyfalaf dros dro 2024 i 2025, Tabl 7.

| Enw Portfolio a Grant | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a Phartneriaeth Gymdeithasol | 6,947 | 6,537 |
| Cyfanswm Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd | 1,090 | 1,014 |
| Cyfanswm y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth | 199 | 379 |
| **Pob Grant** | **1,492,042** | **1,374,201** |
| **Pob Grant ac eithrio TBC (ar gyfer cymhariaeth gyfatebol) a throsglwyddiadau GCR** | **1,466,021** | |

## Trawsnewid a deddfu

**63.** Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer trawsnewid a deddfu wedi gweld gostyngiad bach yn ei ddyraniad ar gyfer 2024-25 ychydig o dan £1 miliwn. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb yn cefnogi cyflwyno deddfwriaeth newydd.

**64.** Cadarnhaodd y Gweinidog yn ei phapur y bydd y gostyngiad i'r llinell wariant yn y gyllideb hon yn effeithio ar y ffordd y bydd diwygio'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig y cael ei gyflawni, gan gynnwys gweithredu'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), os caiff ei basio. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y gallai'r gostyngiad effeithio ar weithredu agweddau ar raglen waith Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac y gallai rhai elfennau gael eu gohirio o ganlyniad.

**65.** Ym mhapur y Gweinidog nododd y bydd "effaith y gostyngiadau yn cael eu rheoli i leihau eu heffaith."[31] Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrthym nad yw Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi "gweithio'n llawn drwy hyn" i ganfod beth fydd yr effeithiau.[32]

[31] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 2
[32] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 218

## Ein barn ni

**66.** Mae'n amlwg bod rhwystredigaeth yn parhau i fodoli ynghylch y fformiwla gyllido. Nodwn esboniad y Gweinidog am osod a defnyddio'r cyllid gwaelodol ac rydym yn cydnabod yr angen i gydbwyso gofynion cyllideb ymhlith adrannau. Rydym yn croesawu penderfyniad y Gweinidog i osod ffigur gwaelodol a chredwn fod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob awdurdod yn derbyn isafswm lefel o gynnydd mewn cyllid. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn debygol o dderbyn cyllid canlyniadol yn sgil Llywodraeth y DU yn sicrhau bod £500 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol yn Lloegr, a hoffai i Lywodraeth Cymru ystyried a ddylai'r Cyllid newydd hwnnw gael ei neilltuo, yn llawn neu yn rhannol, i osod y cyllid gwaelodol ar lefel uwch, gan felly sicrhau y byddai mwy o awdurdodau lleol yn elwa.

**67.** Mae'n bwysig bod pawb sy'n ymwneud â phenderfyniadau cyllidebol a chynllunio ariannol mewn llywodraeth leol yn deall yn llawn y penderfyniadau cyllido a wnaed. Nodwn nad yw cofnodion ar gyfer yr Is-Grŵp Dosbarthu, sy'n cynghori ar faint o gyllid refeniw y mae pob awdurdod lleol yn ei dderbyn, wedi cael eu cyhoeddi ers mis Mai 2022. Dylid diweddaru'r rhain cyn gynted â phosibl a'u diweddaru'n rheolaidd. Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru fod yn gwbl dryloyw ynghylch y penderfyniadau y mae'n eu gwneud mewn partneriaeth â llywodraeth leol. Credwn y dylai eglurydd syml, sy'n nodi sut mae'r canlyniadau cyllido ar gyfer pob setliad wedi codi o'r fformiwla, fod ar gael ac yn hygyrch i bawb.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi eglurydd syml sy'n nodi sut mae'r fformiwla gyllido yn cael ei chyfrifo. Dylid cyfleu hwn i lywodraeth leol a'i ddiweddaru'n flynyddol i egluro sut mae unrhyw newidiadau mewn setiau data wedi effeithio ar y fformiwla.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd yr Is-grŵp Dosbarthu yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd er mwyn sicrhau tryloywder llwyr.

**68.** Rydym hefyd yn nodi y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban am eu fformiwla gyllido, a hoffem gael gwybod am unrhyw ganlyniad i'r trafodaethau hyn.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth yr Alban ynghylch ei fformiwla gyllido.

## Pwysau gwariant

**69.** Fel y nodwyd yn gynharach, mae awdurdodau lleol yn parhau i wynebu pwysau costau eithriadol, ac mae hyn oll yn ei gwneud yn fwy heriol mynd i'r afael â rhai o'r materion tymor hwy, er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn y setliad dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**70.** Mae Dadansoddi Cyllid Cymru yn nodi:

> *"We estimate that spending pressures have outstripped the growth in local government revenues over the last two years, despite significant nominal terms increases in funding from the Welsh Government."*[33].

**71.** Fodd bynnag, o dan ei rhagdybiaethau ar gyfer cyllid llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf (2025-2028), mae "ar fin gostwng ychydig mewn termau enwol (ar gyfartaledd -0.2 y cant y flwyddyn)". Byddai hyn yn golygu gostyngiad o 4.3% mewn termau real dros gyfnod o dair blynedd.

**72.** O ganlyniad, mae gorwariant wedi dod yn ddigwyddiad rheolaidd ac yn "arbennig o ddifrifol" mewn rhai awdurdodau yn ôl CLlLC, gyda gofal cymdeithasol yn cyfrif am hyd at 50 y cant o'r gorwariant ledled Cymru. Mae gofal plant cost uchel a'r galw am ofal cymdeithasol i oedolion yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r gorwariant. Ac er bod chwyddiant (gan gynnwys chwyddiant cyflog) wedi effeithio'n sylweddol ar wariant awdurdodau lleol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n cyfrif am ddim ond ychydig dros draean o'r gorwariant a ragwelir (tua £72 miliwn). Mae cyfran sylweddol o bwysau yn ystod y flwyddyn "yn deillio o alw annisgwyl", yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol.

**73.** Gwnaeth CLlLC bwysleisio y bydd y cynnydd o 3.1 y cant yn y setliad yn "gofalu am ychydig dros chwarter y pwysau yn y flwyddyn ariannol".[34]

[33] Dadansoddi Cyllid Cymru, Rhagolygon cyllidol tymor canolig ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, Hydref 2023
[34] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1

## Addysg ac ysgolion

**74.** Hyd yn hyn, mae ysgolion wedi'u diogelu'n gymharol o fewn pob cylch cyllideb. Ond gyda phwysau a ragwelir o £164 miliwn yn 2024-25, sydd, medd CLlLC, yn cynrychioli "cynnydd o 5.6% ar wariant refeniw net a gyllidebwyd ar gyfer 2023-24", a phwysau pellach o £134m (2025-26 a 2026-27 yn y drefn honno) a ddisgwylir, efallai na fydd ysgolion yn cael "yr un gefnogaeth yn y dyfodol o ystyried maint y bwlch ariannu".[35]

**75.** Efallai y bydd gan rai ysgolion, fel awdurdodau lleol, rai cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae CLlLC yn dweud bod ysgolion yn "dechrau defnyddio eu cronfeydd wrth gefn ar y fath raddfa fel eu bod yn ceisio benthyciadau i dalu am diffygion".

**76.** Er bod system o Gytundebau Diffyg Trwyddedig rhwng awdurdodau ac ysgolion, mae un awdurdod lleol wedi dweud y bydd y mwyafrif, os nad pob un o'i ysgolion eraill "yn mynd i sefyllfa o ddiffyg". Mae nifer o awdurdodau wedi dweud bod "risg sylweddol o ddiswyddiadau ymhlith staff cymorth ac athrawon", gyda rhai ysgolion "yn methu bodloni cymarebau disgyblion/athrawon a argymhellir".[36]

**77.** Nododd y Cynghorydd Burnett:

> *"The Association of Directors of Education in Wales are already forecasting that the number of schools with irretrievable budget deficits is going to increase."*[37]

**78.** Cytunodd y Cynghorwyr McCoubrey, Gebbie a Burnett fod pandemig COVID wedi rhoi mwy o bwysau ar ysgolion. Dywedodd y Cynghorydd McCoubrey:

> *"I don't think you can underestimate the damage COVID has done to our young people. I think the effects will be long lasting; you can see that in attendance figures. The work that schools have to do to get those young people back engaged is expensive and it's difficult to do, but we are seeing an increase*

[35] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[36] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[37] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 88

> *in need at all levels, so we really should be putting more money into schools, not less."*[38]

**79.** Nododd y Cynghorydd Burnett gymhlethdod yr angen sy'n cael ei brofi yn ein hysgolion yn dilyn COVID, ac ychwanegodd y Cynghorydd Gebbie fod angen mwy o gyllid ar gyfer ymyrraeth gynnar a gwaith atal gyda phlant o ganlyniad i'r pandemig.[39]

**80.** Tynnodd y Gweinidog sylw at waith sy'n cael ei wneud gan y Gweinidog Addysg:

> *"to look right across the whole range of grants provided to local government by the education department and to consolidate them down into just four funding streams, and I think that that has been warmly welcomed by local government as a potential tool to help them manage their budgets better and have greater flexibility to address those local priorities."*[40]

## Cyflogau athrawon

**81.** Maes arbennig o bryder i awdurdodau lleol yw dyfarniadau cyflog athrawon. Ym mis Hydref y llynedd, dywedodd CLlLC ei bod wedi dod yn ymwybodol na fyddai dyfarniadau cyflog athrawon ar gyfer 2023-24 yn cael eu hariannu yn rheolaidd o 2024-25. Nodir y bydd hyn yn rhoi:

> *"… pwysau ychwanegol o £21.3m heb gyllid ar gyllideb y flwyddyn nesaf er gwaethaf sicrwydd ei fod yn cael ei ariannu'n llawn yn llythyr y Gweinidog ar 9 Mawrth 2023."*[41]

**82.** Roedd Datganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU hefyd yn nodi cynnydd o 5 y cant yng nghyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cynllun pensiwn athrawon o fis Ebrill 2024. Byddai hyn, yn ôl CLlLC, yn costio £64.3 miliwn yn ychwanegol. Mae'n debyg bod "hyn wedi ei seilio ar ddim cynnydd o ran tâl ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25".[42]

**83.** Mae CLlLC yn honni pe bai'r cyfraniadau pensiwn yn cael eu hariannu ond nid y pwysau cyflog, yna gallai'r bwlch cyllido cronnus fod o bosib yn £1.29 biliwn

---

[38] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 89
[39] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraffau 83 a 101
[40] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 228
[41] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[42] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1

erbyn 2027. Mae CLILC yn nodi y bydd angen i awdurdodau lleol gymryd camau "llym"i fynd i'r afael â'r bylchau.[43]

**84.** O ran pensiynau athrawon, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"it's something that we're aware of and local government has raised with us. We're still waiting for clarity from the UK Government on this, but I have said that in relation to any consequential funding that comes for the pensions issue, we will pass that on to local government."*[44]

**85.** Ychwanegodd y byddai'n ysgrifennu, ynghyd â Dirprwy Brif Weinidog yr Alban, at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pwynt hwn, gan ofyn am eglurder ar frys.

### Ein barn ni

**86.** Mae'r diffyg eglurder ynghylch cyllid ar gyfer pensiynau athrawon yn siomedig. Rydym yn annog y Gweinidog i bwyso ar Lywodraeth y DU am eglurder ynghylch a fydd cyllid canlyniadol ar gael i ariannu'r ymrwymiad. Rydym yn cydnabod y byddai cyllido'r cyfraniad mwy yn bwysau sylweddol i awdurdodau lleol, felly rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i drosglwyddo unrhyw gyllid canlyniadol i lywodraeth leol. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am ymateb Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â phensiynau athrawon ac unrhyw effaith ar benderfyniadau cyllido y gallai hyn eu cael. Rydym wedi ysgrifennu at Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i roi gwybod iddynt am y dystiolaeth a gawsom ar y mater hwn.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog bwyso ar Lywodraeth y DU am eglurder ynghylch cyllid canlyniadol ar gyfer pensiynau athrawon a rhoi gwybod i'r Pwyllgor hwn am ganlyniad y trafodaethau hynny ac unrhyw effaith ar benderfyniadau cyllido y gallai hyn eu cael.

## Gofal cymdeithasol

**87.** Mae gofal cymdeithasol yn cyfrif am 36 y cant o bwysau gwariant llywodraeth leol yn 2024-25 (£261 miliwn), ac mae cynghorau "yn parhau i fod yn

[43] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[44] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 231

bryderus iawn am y pwysau presennol sy'n wynebu gofal cymdeithasol"yn ôl CLlLC.

**88.** Nodwyd pwysau cyllideb o £109 miliwn yn ystod y flwyddyn, sef tua 4.7 y cant o wariant refeniw net wedi'i gyllidebu, gan Gymdeithas Trysoryddion Cymru yn ystod arolwg o awdurdodau lleol ym mis Medi 2023. Mae'r pwysau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (£261 miliwn yn 2024-25) yn cynrychioli cynnydd o 11.3 y cant yn y cyllidebau presennol. Un o'r cyfranwyr mwyaf i'r pwysau gwariant yw costau comisiynu a chwyddiant cyflogau (£180 miliwn) tra bod y gweddill yn bwysau sy'n cael eu harwain gan alw.

**89.** Nododd CLlLC yn nodi bod yr uchod wedi'i gyfuno â:

> *"… mwy o alw, cymhlethdod angen a phrinder gweithlu wedi arwain at gostau uwch ac felly cynnydd mewn gwariant i gynghorau dalu costau cynyddol lleoliadau ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Mae awdurdodau lleol wedi tynnu sylw at hon fel risg sylweddol."*

**90.** Ymhlith y risgiau a nodwyd mae gostyngiadau yn ansawdd y gofal a'r dewis sydd ar gael.

**91.** Fe wnaeth awdurdodau lleol hefyd godi materion yn ymwneud â mynediad at Ofal Iechyd Parhaus, gyda chynghorau "yn parhau i orfod ariannu'r mwyafrif, os nad pob un, o'r pecynnau gofal hyn yn hytrach nag iechyd".[45]

**92.** Nododd y Cynghorydd Gebbie fod gan awdurdodau lleol "ddadleuon sylweddol gyda'r bwrdd iechyd nawr ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am beth mewn pob pecyn gofal", a dywedodd y Cynghorydd Dyfrig wrthym:

> *"Betsi Cadwaladr has commissioned work to look at how they can put more pressure on councils by shifting care from health to councils, which is very concerning "*[46]

**93.** Cydnabu'r Gweinidog bod "perygl y bydd tensiynau'n dechrau dod i'r amlwg rhwng dwy ran bwysig iawn o'r gwasanaeth cyhoeddus", a nododd ei bod yn "ymwybodol"o anghysondebau posib mewn cyflogau rhwng iechyd a llywodraeth leol.[47]

[45] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[46] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 117
[47] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 199

**94.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod:

> *"the Minister for Health and Social Services meets regularly, alongside the Deputy Minister for Social Services, with local government colleagues, particularly those who hold the social services portfolio"*

**95.** Fodd bynnag, cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd hi wedi cymryd rhan uniongyrchol yn y trafodaethau hynny.[48]

## Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol

**96.** Un gostyngiad nodedig yn setliad llywodraeth leol yw'r cyllid i gefnogi recriwtio mewn gofal cymdeithasol drwy'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailflaenoriaethu £11 miliwn o'r grant hwn, y mae naratif cyllideb drafft Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd "yn arwain at effeithiau ar awdurdodau lleol a phartneriaid gofal cymdeithasol".

**97.** Mae'r Gweinidog yn derbyn yn ei phapur oherwydd y pwysau gwario a'r galw ar awdurdodau lleol "mae'n debygol y bydd pwysau ar nifer y staff".[49]

**98.** Nododd y Cynghorydd Siencyn fod y gostyngiad yn y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn arwydd o "wendid y system grantiau sy'n dod o Lywodraeth Cymru". Eglurodd:

> *"Pan dŷn ni'n cael setliad, dŷn ni'n gwybod ein bod ni'n cael 3.1 y cant. Ond yn rhywle yn gudd yn y system, dŷn ni'n gweld toriad o 20 y cant yn y social care workforce grant. Felly, mae angen edrych ar y system grantiau yma, ac maen nhw'n flynyddol, a dŷn ni ddim yn gwybod a ydyn nhw'n parhau o flwyddyn i flwyddyn. Felly, dwi yn credu bod hwnna yn wendid, yn sicr yn y drefn ariannu—dŷn ni'n orddibynnol ar grantiau gan y Llywodraeth am faterion arbennig."*[50]

## Gwasanaethau plant

**99.** Maes arwyddocaol arall o bwysau yw gwasanaethau gofal plant, gyda CLlLC yn nodi "lefelau digynsail o leoliadau brys ar gyfer lleoliadau preswyl". Mae'r argyfwng costau byw, yn ôl CLlLC, wedi ei amlygu gan awdurdodau lleol fel

[48] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 209
[49] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 2
[50] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 115

ffactor blaenllaw yn y pwysau cynyddol ar deuluoedd ac yn cynyddu nifer y plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal.[51]

**100.** Mae'r effaith costau ar awdurdodau lleol yn sylweddol, gydag un awdurdod yn dweud bod cyllideb ei wasanaethau plant wedi cynyddu £11 miliwn (56 y cant) dros y 3 blynedd diwethaf. Canlyniad pwysau o'r fath yw bod awdurdodau lleol mewn rhai amgylchiadau wedi sefydlu "trefniadau lleoli pwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gweithredu heb gofrestru".

**101.** Fel ymateb i'r pwysau, mae cynghorau'n "ceisio creu eu darpariaeth fewnol eu hunain", sydd yn cymryd amser ac adnoddau i'w sefydlu, a'r ddau yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

**102.** Nododd y Cynghorydd Gebbie:

> *"We are seeing increased numbers of children coming in and needing placements. At a minimum, that's normally £0.5 million a year for each child. If we can keep them at early intervention and prevention—. And that's all the stuff that we will cut, because we can't do it; I will need to focus on that sharp end. The impact for those young people, their life chances, the opportunities that are going to come forward for them are so significantly limited, that's detrimental to Wales."*[52]

## Ein barn ni

**103.** Mae'n amlwg bod tensiynau rhwng llywodraeth leol ac iechyd ynghylch cyfrifoldeb cyllido a darparu pecynnau gofal yn gwaethygu ymhellach ar adegau o bwysau cyllidebol eithafol. Nodwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod yn rheolaidd â llywodraeth leol ond rydym o'r farn ei bod yn bwysig, o ystyried ei chylch gwaith, fod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol hefyd yn ymuno â'r trafodaethau hyn gyda'r bwriad o fynd i'r afael â phryderon a cheisio atebion posibl.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ymuno â thrafodaethau rhwng y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chynrychiolwyr llywodraeth leol i fynd i'r afael â thensiynau ynghylch ariannu a

[51] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[52] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 100

darparu pecynnau gofal i oedolion, ac i ymdrin â'r heriau o ran cyllido gwasanaethau cymdeithasol plant.

**104.** Rydym yn pryderu y bydd lleihau'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, sy'n cefnogi gwasanaeth statudol allweddol a ddarperir gan awdurdodau lleol, yn ychwanegu at y pwysau presennol yn y sector. Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2023-24 gwnaethom fynegi ein pryder nad oedd y sefyllfa sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff i weithio yn y sector gofal cymdeithasol wedi gwella, ac mae'n amlwg bod yr un peth yn wir eto. Ar y pryd nodwyd gennym y dylai recriwtio a chadw staff i weithio yn y sector gofal cymdeithasol fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.[53]

**105.** Gallai pwysau cynyddol fel y rhai sy'n cael eu hachosi gan ostyngiad Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, yn hawdd iawn, greu sbardun ar gyfer cyhoeddi hysbysiad adran 114, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ac felly mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn asesu'r risg o leihau grant o'r fath.

**106.** Rydym yn ymwybodol bod Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi argymell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn egluro pam mae gostyngiadau wedi'u gwneud i'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, o ystyried y pwysau ariannol sylweddol y mae gofal cymdeithasol a'i staff yn ei wynebu, a dylai hyn gynnwys asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y penderfyniad hwn. Rydym yn cytuno â'r safbwynt hwn ac yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Cyllid.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, sy'n galw am esboniad i egluro pam mae gostyngiadau wedi'u gwneud i'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y penderfyniad hwnnw.

**107.** Mae'r pwysau a brofir gan awdurdodau lleol i gyflawni'r angen cynyddol am wasanaethau plant yn faes arall o bryder penodol i ni. Mae sicrhau bod gwasanaethau plant yn cael eu darparu yn ddiogel a bod ganddynt ddigon o adnoddau i sicrhau eu bod yn briodol i fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn hollbwysig. Rydym wedi ysgrifennu at Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i roi gwybod iddynt am y dystiolaeth a gawsom ar y mater hwn.

[53] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023

## Cyllid cyfalaf a benthyca

**108.** Mae cyllid cyfalaf cyffredinol llywodraeth leol yn parhau i fod heb ei newid ar £180 miliwn yn 2024-25, gydag £20 miliwn ychwanegol ar gyfer datgarboneiddio. Nododd Dadansoddi Cyllid Cymru, yn ei Ragolwg Cyllideb Cymru 2022, y byddai cyllidebau cyfalaf Llywodraeth Cymru, heb unrhyw gynnydd yng nghyllideb Llywodraeth y DU, yn gostwng 8 y cant mewn termau real erbyn 2024-25.[54]

**109.** Yn ychwanegol at y costau chwyddiant a'r anwadalrwydd mewn costau adeiladu, mae CLlLC yn nodi bod awdurdodau lleol wedi gorfod ailflaenoriaethu cynlluniau a chwtogi lle bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, mewn cysylltiad â rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, mae nifer o awdurdodau yn "adrodd am ostyngiad yn nifer y cynlluniau sydd bellach yn fforddiadwy o'u cymharu â'r hyn a ragwelwyd". Mae cynghorau nawr yn ystyried cynaliadwyedd cynnal costau benthyca wrth symud ymlaen.

**110.** Y brif ffynhonnell o fenthyca i ymgymryd â phrosiectau cyfalaf y tu allan i gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yw drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, er y gallant fenthyca gan sefydliadau ariannol eraill hefyd. Mae CLlLC yn nodi yn ei phapur bod cyfraddau benthyca hirdymor presennol tua 5 y cant, er ei bod yn nodi bod llawer o anwadalrwydd yn y marchnadoedd. Mae'r gyfradd yn sylweddol uwch na'r hyn a oedd ar gael pan oedd rhaglenni cyfalaf yn cael eu pennu ym mis Mawrth 2022, y mae CLlLC yn dweud fod hyn yn "peri risg sylweddol i fforddiadwyedd a chynaliadwyedd".[55]

**111.** Dywedodd y Cynghorydd Burnett wrthym:

> *"I think that we can all talk about the increased costs of our capital programmes. Again, in the last couple of years, whether that be high levels of inflation, COVID or whatever, we've been seeing tenders double the level that we were seeing, and I think we've been really grateful for some of the support we've had in terms of house building."*

**112.** Rhybuddiodd, er bod ei hawdurdod wedi blaenoriaethu cyfalaf,

[54] Dadansoddi Cyllid Cymru, Rhagolygon Cyllideb Cymru 2022, Rhagfyr 2022
[55] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1

> *"There will come a time when it stops, because there will come a time when we won't be able to afford to develop things; we'll have to focus on revenue costs."*[56]

**113.** Cydnabu'r Gweinidog y toriad mewn termau real i'r gyllideb gyfalaf, a nododd:

> *"Of course, inflation means that local government is, just as we are and everyone else is, able to deliver less as a result. I suppose that that, really, just means that local government will have to do some important prioritisation work in terms of how they deploy their capital funding. And a flat budget, I know, will be challenging for them in that regard."*[57]

## Llywodraeth leol gynaliadwy

### Sero Net a Datgarboneiddio

**114.** Mae awdurdodau lleol wedi gwneud nifer o ymrwymiadau i gyfrannu at y targed Sero Net erbyn 2030, sy'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, er enghraifft, mewn cerbydau carbon isel ac ôl-osod eiddo cynghorau i sicrhau effeithlonrwydd ynni. Mae CLlLC yn nodi y bydd angen "ystod eang o ffrydiau cyllido i wneud y math o newidiadau sydd eu hangen ar y cyflymder sydd ei angen."[58]

**115.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £20 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer 2024-25 ar gyfer rhaglenni datgarboneiddio llywodraeth leol. Mae rhywfaint o gyllid refeniw hefyd o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella a Chefnogi a'r Llinell wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ystadau Cymru, gyda'r Gweinidog yn nodi yn ei phapur y bydd yn "helpu cynlluniau i ddatgarboneiddio ystadau Llywodraeth Leol ac ystadau Llywodraeth Cymru."[59]

**116.** Amlygodd CLlLC feysydd eraill hefyd a oedd yn peri pryder, gan gynnwys caffael. Mae'n ofynnol i Gynghorau leihau allyriadau 'cwmpas 3' (sy'n cyfrif am tua 70 y cant o ôl troed carbon sefydliad). Mae hyn yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau a brynir.

[56] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraffau 121 a 123
[57] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 236
[58] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[59] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024. Papur 2

**117.** Serch hynny mae CLlLC yn nodi ar adeg o bwysau ariannol sylweddol, "bydd yn her i gynghorau 'wneud y peth iawn' yn hytrach na dewis yr opsiwn mwyaf fforddiadwy." Gallai hyn arwain at ohirio cynlluniau "y dylid eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau… yr effaith bosibl fwyaf".[60]

**118.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"The £20 million is additional to the unhypothecated funding that we've talked about. So, it does have that particular focus on decarbonisation, and the work of the decarbonisation panel, which advises local authorities in this space, is really important in helping to identify particular projects that might be suitable candidates for that. Again, that's something that we would want to be able to provide more money for, but, unfortunately, we can't. I think local authorities don't have to just decarbonise with that money; they can be decarbonising with the rest of their funding as well."*[61]

**119.** Nododd y Gweinidog fod grantiau cyfalaf eraill ar gael ar gyfer gwaith yn y maes hwn, gan hefyd dynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud gan Ystadau Cymru.

## Ffoaduriaid o Wcráin a'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr

### Ffoaduriaid o Wcráin

**120.** Mae dros 7,000 o ffoaduriaid o Wcráin wedi cyrraedd Cymru drwy gynllun Cartrefi i Wcráin. Dyrannodd cyllideb 2023-24 £40 miliwn i gefnogi ffoaduriaid o Wcráin, gan ostwng i £20 miliwn yn 2024-25. Yn y ddogfen 'Naratif y Gyllideb Ddrafft' mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn datgan bod £15.5 miliwn wedi'i ail flaenoriaethu o raglen Wcráin oherwydd gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cyrraedd ac mae'n disgrifio'r camau a gymerwyd i gefnogi pobl Wcráin gyda llety, gan gynnwys y ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyfran gymesur o Gronfa Atal Digartrefedd werth £120 miliwn Llywodraeth y DU yn 2024-25. [62]

**121.** Ym mis Hydref 2023 cadarnhaodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol bod Llywodraeth Cymru wedi cael £8.2 miliwn gan Lywodraeth y DU. Nododd y Gweinidog sut y dyrannwyd y cyllid hwn, gan gynnwys £3.85 miliwn i

---

[60] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[61] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 238
[62] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023

awdurdodau lleol yng Nghymru i helpu i fynd i'r afael â bylchau mewn cyllid (£2 miliwn wedi'i ddyrannu i symud ymlaen â gweithgarwch cysylltiedig a dyrannwyd £1.95 miliwn pellach i awdurdodau lleol drwy gronfa ddewisol). Gan gyfeirio at y dyraniad, esboniodd y Gweinidog bod hwn gryn dipyn yn llai na'r hyn a gafwyd yn flaenorol drwy gynlluniau ffoaduriaid ac adsefydlu eraill:

**122.** Tariff Cynllun Afghanistan yw £6,000 y pen ar gyfer blwyddyn 2 a fyddai, pe byddai'n cael ei gymhwyso i nifer y bobl Cartrefi i Wcrain sy'n cyrraedd Cymru, yn cyfateb i £42.1 miliwn.

**123.** Dywedodd y Gweinidog Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wrthym ym mis Hydref 2023 fod awdurdodau lleol wedi bod mewn sefyllfa anodd iawn o ganlyniad i golli'r tariff hwnnw.[63]

**124.** Nododd papur y Gweinidog y canlynol:

> *"Nid yw'r gostyngiad yn y gyllideb yn adlewyrchu newid mewn polisi ac nid oes disgwyl iddo gael unrhyw effeithiau sylweddol ar unigolion oherwydd dylai gweddill y swm fod yn ddigonol i gyflawni holl elfennau allweddol y rhaglen a pharhau i gefnogi pobl Wcrain i symud i lety tymor hir fel rhan o'u cymunedau lleol."*[64]

**125.** Cadarnhaodd y Gweinidog:

> *"at last year's budget, which was set for this year, we allocated £40 million for this year and £20 million for next year. At that point, we had to base it on what was probably a worst-case scenario in terms of the pressures that might be arising. Actually, what we have seen is a reduction in the number of people coming from Ukraine and the success of the programme in terms of move-on."*

**126.** Ychwanegodd y Gweinidog bod y cyllid:

> *"still allows us to have that kind of wraparound support for individuals who are arriving, it allows us to ensure that we work with local authorities to support the move-on work, so it doesn't reduce the support that we're able to provide. It also allows us*

[63] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Hydref 2023, CyT, pargraff 86
[64] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 2

> *to provide that increased level of support of £500 for the host families. So, we're still able to do the work that we did; it's just the numbers of people who we're supporting have decreased significantly."*[65]

## Y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**127.** Mae dyraniadau ar gyfer y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eistedd o fewn y prif grŵp gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae'r gyllideb hon yn cefnogi datblygu safleoedd newydd, ymestyn safleoedd a phrosiectau adnewyddu mewn safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol. Y dyraniad ar gyfer y Grant Safleoedd Sipsiwn i Deithwyr yn 2024-25 yw £3.44 miliwn, ac mae'r Gweinidog yn nodi nad yw wedi newid o'r gyllideb ddangosol ym mis Mawrth 2023.[66] £3.19 miliwn oedd y dyraniad yn 2023-24.

**128.** Amlygodd ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 ein pryderon am danwariant Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.[67] Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r rhesymau dros y diffyg cynnydd hyd yma fel mater o frys a sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y gronfa bwysig hon yn cael ei defnyddio. Mewn ymateb, cydnabu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol bod ymgysylltu gweithredol a hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru yn bwysig wrth symud pethau ymlaen, a nododd:

> *"…mae swyddogion yn y broses o gwrdd â chynrychiolwyr cymunedau ac Awdurdodau Lleol ledled Cymru i asesu'r angen a'r sgôp i fanteisio ar y grant."*[68]

**129.** Ysgrifennom at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar 20 Hydref 2023 yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y polisi ariannu cyfredol mewn perthynas â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ond nid ydym wedi derbyn ymateb i'n cwestiynau eto.

**130.** Yn ystod gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2024-25, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrthym ei bod yn disgwyl i wariant o'r grant eleni fod

---

[65] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 28
[66] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 2
[67] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023
[68] Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, Mawrth 2023

yn sero, gan nad oedd ceisiadau addas yn dod drwodd ar gyfer y gronfa honno.[69] Cadarnhawyd hyn ymhellach yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a ddywedodd wrth y Pwyllgor ei bod wedi bod yn cwrdd ag awdurdodau lleol dros y chwe mis diwethaf i ystyried eu hasesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr. Eglurodd fel a ganlyn:

> *"We're looking at the drafts, we're clarifying issues and updates. So, it did result in no applications for capital funding in this financial year, but the key thing is that we've got this allocation for the next financial year. And as I've been meeting authorities—and some of those authorities have been the ones, from north to south, with perhaps the most challenging issues in terms of those accommodation assessments—I am urging them to get their proposals ready for access to this sites grant for the next financial year, and have protected that capital budget."*[70]

### Ein barn ni

**131.** Rydym yn parhau i bryderu'n fawr am y tanwariant yn nyraniad Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr; er gwaethaf sicrwydd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol am ei gwaith gydag awdurdodau lleol, mae'n hynod siomedig i fod yn yr un sefyllfa â'r llynedd o ran ein gwaith craffu. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol a'r cymunedau dan sylw i sicrhau ymwybyddiaeth o'r grant ac i ddarparu arweiniad clir ar geisiadau.

**132.** Rydym yn cytuno â Phwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd y dylai Llywodraeth Cymru roi cyfrif llawn o'r rhesymau pam nad yw cyllid cyfalaf a ddyrannwyd i ddatblygu a chynnal safleoedd Sipiwn, Roma a Theithwyr wedi ei wario. Mae'n annerbyniol, yn ein barn ni, nad oes dim cyllid wedi ei ddyfarnu drwy'r Grant Safleoedd Cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24 cyfan. Fel yr ydym wedi'i ddweud yn flaenorol, rydym yn ymwybodol o'n gwaith ar ddarparu safleoedd ar gyfer Sipswn, Roma a Theithwyr bod rhai safleoedd awdurdodau lleol angen eu cynnal a'u cadw neu eu hadnewyddu ar frys. Rydym yn synnu'n fawr ac yn siomedig felly bod y grant

[69] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, paragraff 244
[70] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Ionawr 2024, CyT, paragraff 118

hollbwysig hwn yn dal i fod heb ei wario a'r cyllid wedi'i ail-ddyrannu i feysydd eraill wrth gefn am yr ail flwyddyn yn olynol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y cyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth lawn i'r rhesymau dros y sefyllfa annerbyniol lle mae'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi arwain at ddyfarnu dim cyllid i awdurdodau lleol am y blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24 cyfan. Dylai'r cyfrif hwn nodi'r rhesymau dros y methiant hwn a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â nhw. Rydym yn disgwyl i hyn fod ar gael cyn y drafodaeth ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 5 Mawrth 2024.

**133.** Yn ogystal, o ystyried ei chylch gwaith, credwn y dylai'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol weithio'n agos gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau sy'n digwydd ac i fonitro a yw ceisiadau addas yn cael eu cyflwyno.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol weithio'n agos gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau sy'n digwydd ar geisiadau am gyllid y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ac i fonitro a yw ceisiadau addas yn cael eu cyflwyno.

# 3. Tai

## Cyllid cyffredinol ar gyfer Tai ac Adfywio

**134.** Y cyfanswm yng nghyllideb ddrafft 2024-25 ar gyfer Tai ac Adfywio yw £1.12 biliwn. Mae hyn £45.4 miliwn yn llai mewn termau arian parod na'r gyllideb derfynol ar gyfer 2023-24, a £71.1 miliwn yn llai na'r ffigur cyllideb ddangosol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023. O ran refeniw, cyfanswm y gyllideb ddrafft yw £222.3 miliwn, sydd £27.3 miliwn yn llai na chyllideb derfynol 2023-24, a £33.8 miliwn yn llai na'r ffigur dangosol. O ran cyfalaf, cyfanswm y gyllideb ddrafft yw £903 miliwn, sydd £18.6 miliwn yn llai na chyllideb derfynol 2023-24, a £37.3 miliwn yn llai na'r ffigur dangosol.

**135.** Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog fod y dyraniadau drafft:

> *"wedi cael eu targedu tuag at ymyriadau sy'n fforddiadwy ac sy'n cynnig gwerth am arian tra hefyd yn ceisio diogelu gwasanaethau rheng flaen sy'n amddiffyn y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas."*[71]

## Digartrefedd a chymorth tai

**136.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed iawn i ddiogelu'r rhan fwyaf o'r cyllidebau digartrefedd, gan nodi bod y Grant Cymorth Tai wedi aros yn wastad a bod cyllidebau craidd eraill ar gyfer digartrefedd wedi'u diogelu.[72]

### Digartrefedd

**137.** Mae cyllideb ddrafft 2024-25 yn gweld cyllid refeniw ychwanegol o £2 filiwn ar gyfer atal digartrefedd, mae hyn yn is na'r cynnydd o £5 miliwn a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft ddangosol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023. Mae papur y Gweinidog yn dweud bod hyn yn adlewyrchu'r cylch pennu cyllideb hynod heriol eleni.[73]

**138.** Newid arall yw bod y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Grant Cymorth Tai wedi cael ei uno â'r Llinell wariant yn y Gyllideb ar gyfer Atal Digartrefedd, i

[71] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 3
[72] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 279
[73] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 3

gyfanswm cyfunol o £214.9 miliwn mewn Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymorth ac Atal Digartrefedd newydd. Dywedir ym mhapur y Gweinidog:

> *"Rydym wedi casglu ynghyd cyllid a rannwyd yn flaenorol ar draws dau BEL (Grant Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd) i ddarparu un gronfa sydd â thema gyffredin o atal digartrefedd a chefnogi dyletswyddau statudol Awdurdodau Lleol yn hyn o beth. Mae dod â llinellau BEL at ei gilydd yn cefnogi ein bwriad polisi i gefnogi cynnydd tuag at atal ac Ailgartrefu Cyflym. Yn ogystal â'r Grant Cymorth Tai mae'r BEL yn cefnogi cyllid ar gyfer llety dros dro wrth i ni drosglwyddo i ailgartrefu cyflym; cefnogaeth i Awdurdodau Lleol ariannu swyddi i gydlynu gweithgareddau digartrefedd ac ystod o ddulliau hyblyg i atal digartrefedd."*[74]

**139.** Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod 11,273 o bobl mewn llety dros dro ar 31 Hydref, 65 yn fwy nag ar 30 Medi; roedd 3,403 o'r rhain yn blant dibynnol o dan 16 oed.

**140.** Mae ein hymchwiliad diweddar i ddigartrefedd wedi tynnu sylw at y pwysau difrifol sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth iddynt geisio sicrhau bod llety dros dro'n cael ei ddarparu i'r rhai sydd ei angen. Roedd ymateb CLlLC i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft yn nodi bod:

> *"sustained increase in homelessness presentations to Councils in the period since the pandemic means that core homelessness services are overwhelmingly now dealing only with crisis and unable to work to prevent homelessness."*[75]

**141.** Hefyd, mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, nododd Llamau bod comisiynwyr yn dweud wrthyn nhw bod:

> *"ymyrraeth gynnar, atal, a gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen dan fygythiad wrth iddynt ganolbwyntio ymdrechion ar wasanaethau argyfwng."*[76]

**142.** Gofynnom i'r Gweinidog a yw'r cyllid yn y gyllideb ddrafft i alluogi awdurdodau lleol i ateb y galw parhaus am lety dros dro yn ddigonol. Dywedodd

[74] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr, Papur 3
[75] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[76] Y Pwyllgor Llywodraeth leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, Papur 4

y Gweinidog wrthym y byddai wrth ei bodd yn rhoi mwy iddynt ond bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cyfeirio adnoddau tuag at atal digartrefedd gan fod rhoi gwariant yn yr agenda ataliol yn effeithlon iawn a chyfeiriodd at y Grant Cymorth Tai fel modd o wneud hynny. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"The local authorities, of course, want us to put more money into the sticking-plaster end, for obvious reasons, because they're dealing with the immediacy of that, but they have funding for that inside the revenue support grant, as well as just the grants that we give them."*[77]

**143.** Cydnabu swyddog Llywodraeth Cymru ei fod yn gydbwysedd anodd a dywedodd wrthym eu bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gael cydbwysedd rhwng lliniaru'r galw digartrefedd uniongyrchol ac yn cyfeirio adnoddau tuag at atal.[78]

## Grant Cymorth Tai

**144.** Cododd Llywodraeth Cymru ddyraniad y Grant Cymorth Tai yn 2021-22 o £126.7 miliwn i £166.7 miliwn. Arhosodd yn £166.7 miliwn yn 2022-23 a 2023-24, ac mae'n aros yr un fath yn y gyllideb ddrafft ddangosol ar gyfer 2024-25.

**145.** Dywedir ym mhapur y Gweinidog:

> *"Er gwaethaf y sefyllfa gyllideb gyffredinol hynod heriol rydym wedi diogelu'r Grant Cymorth Tai ac wedi cynnal ein buddsoddiad yn y gwasanaethau y mae'n eu cefnogi. Bydd ein cefnogaeth yn sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r gefnogaeth gywir, er mwyn i bobl lwyddo a ffynnu."*[79]

**146.** Fis Tachwedd, cyhoeddodd Cymorth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru arolwg a ganfu fod 75 y cant o ddarparwyr yn gwneud colled, a 40 y cant yn debygol o ddychwelyd contractau presennol os bydd y Grant Cymorth Tai yn parhau i fod wedi'i rewi yn 2024-25. Mewn llythyr atom dyddiedig 16 Ionawr 2024, dywedodd Cymorth Cymru wrthym fod y Grant Cymorth Tai werth £24 miliwn mewn termau real yn llai nag yr oedd yn 2012 ond bod cost rhedeg

[77] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 304
[78] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 310
[79] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 3

gwasanaethau Grant Cymorth Tai wedi cynyddu 11 y cant ar gyfartaledd ers y llynedd. Nododd Cymorth fod 52 y cant o ddarparwyr gwasanaethau yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i dalu am y gwasanaethau hyn, ac maent yn pwysleisio bod hyn yn "gwbl anghynaladwy". Nododd Cymorth hefyd fod 77 y cant o ddarparwyr yn debygol o orfod lleihau capasiti gwasanaethau ar adeg pan fo'r galw yn fwy nag erioed ac y byddai 48 y cant yn debygol o ddiswyddo staff.[80]

**147.** Yn ogystal â Cymorth Cymru, roedd yr alwad i gynyddu'r Grant Cymorth Tai yn 2024-25 yn thema mewn nifer o ymatebion eraill i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, gan gynnwys o Llamau, Gorwel (uned fusnes cymdeithas dai Grŵp Cynefin), Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Cymorth i Ferched Cymru, ac unigolyn â phrofiad o weithio yn y sector tai.

**148.** Nododd Gorwel yn ei ymateb:

> *"Heb gynnydd sylweddol yng Ngrant Cymorth Tai bydd rhaid cysidro ail fodelu cynlluniau, atal cynnydd chwyddiant yng nghyflogau cydweithwyr yn 2024/25, gwaredu swyddfeydd a gofod diogel ar gyfer goroeswyr, diswyddo cydweithwyr a rhoi rhai cytundebau presennol yn ôl i gomisiynwyr."*[81]

**149.** Gofynnodd CLlLC i lefel bresennol y cyllid gael ei gynnal os nad oes Cyllid ychwanegol ar gael.[82]

**150.** Codwyd yr heriau cadw staff ac ysgwyddo cynnydd mewn cyflogau gan randdeiliaid. Dywedodd Gorwel bod:

> *"Ansefydlogrwydd cyllid a diffyg chwyddiant cyflogau yn golygu bod recriwtio a chadw staff profiadol gydag arbenigedd yn y maes yn eithriadol o anodd.*
>
> *Trosiant staff yn uchel, o ganlyniad mae angen adnoddau ychwanegol i hyfforddi staff newydd. 18 staff rheng flaen wedi terfynu cyflogaeth yng Ngorwel yn 2022/23. 10 o staff rheng flaen Gorwel wedi terfynu cyflogaeth hyd at chwarter 2, 2023/24 - wedi derbyn swyddi yn y maes statudol sy'n cynnig cyflogau ac amodau cyflogaeth fwy ffafriol."*[83]

---

[80] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Papur 9
[81] Y Pwyllgor Llywodraeth leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, Papur 5
[82] Y Pwyllgor Llywodraeth leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 1
[83] Y Pwyllgor Llywodraeth leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, Papur 5

**151.** Cyflëwyd neges debyg gan Llamau, a nododd:

> *"Mae cyllidebau llinell sefydlog wedi arwain at ddatchwyddiant cyflog, a dyma brif achos y broblem recriwtio a chadw yn y sector."*[84]

**152.** Nododd Cymorth yn ei lythyr, allan o'i sampl o dros 3,000 o weithwyr a ariennir gan y Grant Cymorth Tai, bod 41 y cant yn cael eu talu yn llai na'r isafswm cyflog sydd ar ddod (Ebrill 2024) o £11.44 yr awr a bod 67 y cant ar hyn o bryd yn cael eu talu llai na Chyflog Byw Gwirioneddol 2023/24 o £12 yr awr. Rhybuddiodd Cymorth:

> *"With no increase to the HSG in the Draft Budget for 2024/25, it is going to be incredibly difficult for support providers to uplift salaries to the new minimum wage, never mind the RLW."*[85]

**153.** Roedd y Gweinidog yn cydnabod ar y dechrau ei bod yn:

> *"very well aware, in particular for the housing support grant, that a flat budget is an effective cut."*[86]

## Ein barn ni

**154.** Rydym yn dal i fod yn hynod bryderus am y nifer digynsail o bobl sydd yn byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd yng Nghymru a'r pwysau difrifol y mae hyn yn ei roi ar adnoddau gwasanaethau cymorth. Gwnaethom godi'r pryderon hyn yn ein hadroddiad ar ddigartrefedd ac mewn adroddiadau ar gyllidebau drafft blaenorol, ond mae'n amlwg bod y galw ar lety dros dro yn parhau i roi pwysau ar awdurdodau lleol. Rydym yn deall rhesymeg y Gweinidog dros bwysleisio'r angen i flaenoriaethu gwasanaethau ataliol ac rydym yn cydnabod manteision hirdymor hyn, fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol gael yr adnoddau i ddelio â'r pwysau uniongyrchol o sicrhau llety dros dro i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd.

**155.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, arweiniodd cynnal y Grant Cymorth Tai o £166.7 miliwn at ostyngiad mewn termau real, mewn gwirionedd. Rydym yn pryderu'n fawr, felly,

---

[84] Y Pwyllgor Llywodraeth leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, Papur 4
[85] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Papur 9
[86] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 280

nad yw'r dyraniad drafft wedi newid eto ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd i bob pwrpas yn ostyngiad pellach, ar ben y gostyngiad eleni.

**156.** Fel y clywsom gan randdeiliaid, mae gwasanaethau a ariennir gan y grant hwn yn hollbwysig o ran atal a lliniaru digartrefedd. Mae'r effaith y bydd y toriad pellach yn ei chael ar y gwasanaethau hanfodol hyn yn peri pryder mawr, yn enwedig ar adeg pan dibynnir arnynt i ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o bobl sy'n ddigartref. Gwyddom fod y sector eisoes yn wynebu heriau sylweddol o ran gallu darparu gwasanaethau a diwallu anghenion pobl fregus, ac mae'r neges sy'n dod gan y sefydliadau hynny yn amlwg – heb gynnydd i'r Grant Cymorth Tai, bydd gwasanaethau a chontractau yn cael eu tynnu'n ôl.

**157.** Rydym hefyd yn bryderus iawn am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar staff sy'n gweithio yn y sector. Cydnabu'r Gweinidog yn briodol eu gwaith caled a'u hymroddiad i'w rôl a hoffem ychwanegu ein diolch ni am eu gwaith amhrisiadwy. Mae cynnal staff profiadol yn y sector yn hanfodol, felly mae sicrhau eu bod yn cael eu talu'n deg yn allweddol. Mae'r dystiolaeth ynghylch diswyddiadau posibl a pheidio â chael y Cyflog Byw Gwirioneddol yn peri gofid mawr.

**158.** Nodwn sicrwydd y Gweinidog na fydd cyfuno'r Grant Cymorth Tai a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Atal Digartrefedd yn effeithio ar glustnodi'r gronfa. Gobeithiwn y bydd nod y Gweinidog o leihau biwrocratiaeth yn arwain at arbedion effeithlonrwydd i'r sector.

**159.** Rydym yn gwerthfawrogi'r heriau sy'n wynebu'r Gweinidog wrth bennu'r gyllideb ddrafft hon, ond mae ymchwil wedi dangos bod buddsoddi yn y Grant Cymorth Tai yn darparu gwerth ardderchog am arian. Canfu Ymchwil a wnaed gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd bod pob £1 a fuddsoddir yng ngwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn sicrhau arbedion net o £1.40 ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly, mae'r Grant Cymorth Tai yn faes allweddol o wariant ataliol, y credwn y dylid ei flaenoriaethu ar gyfer cronfeydd ychwanegol.

**160.** Rydym yn sylweddoli bod y Gweinidog yn cydnabod y sefyllfa sy'n wynebu'r sector a dywedodd wrthym y byddai wedi hoffi cynyddu'r Grant Cymorth Tai. Rydym yn deall yr heriau sy'n wynebu'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru wrth ateb mwy o ofynion ariannol ac rydym yn cydnabod bod y Gweinidog yn parhau i graffu ar y gyllideb am ffyrdd o gynyddu dyraniadau. Cyn y gyllideb derfynol, byddem yn annog y Gweinidog i archwilio'r holl lwybrau sydd ar gael i gynyddu

dyraniad y Grant Cymorth Tai, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd y gronfa hanfodol hon yn ystod yr argyfwng costau byw.

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer dyraniad y Grant Cymorth Tai cyn y gyllideb derfynol, a dylai archwilio'r holl opsiynau posibl ar gyfer gwneud hynny.

## Y cyflenwad tai

### Tai newydd fforddiadwy

**161.** Mae'r gyllideb ddrafft yn cadw'r setliad aml-flwyddyn Grant Tai Cymdeithasol a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2022-23, gyda dyraniad o £325 miliwn. Y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yw prif grant cyfalaf Llywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy. Mae ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ogystal ag awdurdodau lleol.

**162.** Mae'r Grant Cyllid Tai, sef y ffrwd refeniw sy'n cefnogi'r Grant Tai Cymdeithasol gydag ad-daliadau benthyca, wedi cael ei dorri £9 miliwn, o £13.1 miliwn i £4.1 miliwn. Eglurodd y Gweinidog:

> *"the finance grant budget remains at £13 million, and it's for contractual commitments to registered social landlords to support SHG, as we call it—the social housing grant. The budget line is offset by a £9 million income line from the Development Bank of Wales."*[87]

**163.** Grant cyfalaf arall sy'n creu tai cymdeithasol yw'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol ("TACP"). Cyflwynwyd hwn yn 2022-23 i gefnogi prosiectau sy'n creu tai yn gyflym mewn ffordd hyblyg, gan gynnwys trwy gaffaeliadau, ailfodelu a dulliau adeiladu modern. Yn ei flwyddyn gyntaf, cefnogodd TACP awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyda £76.4m, i greu 936 o gartrefi. Nid yw'n Llinell Wariant yn y Gyllideb ar wahân ond mae wedi'i hariannu trwy danwariant a brigdorri'r Grant Tai Cymdeithasol.

**164.** Yn ei ymateb i'r Pwyllgor Cyllid, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

[87] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 360

> *"Despite the record capital investment from Welsh Government in the first two years of this Senedd term, building new homes has never been more difficult."*[88]

**165.** Gwnaethant alw am fuddsoddiad i ddiogelu'r Grant tai Cymdeithasol yn 2024-25, ac i barhau â'r dull 'ystwyth a phragmatig' o ariannu a ddangoswyd yn y Rhaglenni Ôl-ffitio er mwyn Optimeiddio. Galwodd Cymorth Cymru hefyd am gadw TACP. Pwysleisiodd y Gweinidog y cyfyngiadau ariannol wrth ddatblygu tai fforddiadwy newydd:

> *"We get about four houses per £1 million now as a result of the various inflationary increases that we've had, where we were getting somewhere between five and seven houses for that £1 million. It's been getting smaller the whole time I've been in this portfolio."*[89]

**166.** Bydd dyraniad cyfalaf o £60.5 miliwn o £60.5 miliwn yn darparu buddsoddiad yn y Gronfa Tai â Gofal ac yn ategu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi datblygu tai arloesol er mwyn diwallu anghenion gofal. Mae papur y Gweinidog yn nodi:

> *"Mae'r rhan fwyaf o'r unedau hyn yn debygol o fod yn dai Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl hŷn, ynghyd â datblygiadau ar raddfa lai i darparu llety â chymorth ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu. Mae'r rhain yn unedau tai cymdeithasol fydd yn cyfrif tuag at y targed o 20,000 o dai cymdeithasol carbon isel i'w rhentu."*[90]

## Tir

**167.** Mae dyraniadau cyfalaf o £25 miliwn a dyraniad refeniw o £2.25 miliwn ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gronfa Rhyddhau Tir. Mae papur y Gweinidog yn nodi y bydd hyn yn cefnogi darparu 'safleoedd enghreifftiol' o fewn portffolio'r Is-adran Tir i alluogi llif cyson o dir i gael ei wireddu dros y 5 mlynedd nesaf i ddarparu tua 2,600 o unedau fforddiadwy o ansawdd. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y gyllideb ar gyfer yr is-adran tir wedi'i diogelu oherwydd:

[88] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB 24-25 26 Cartrefi Cymunedol Cymru
[89] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 360
[90] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 3

> *"we have 27 sites that could deliver around 6,000 homes on exemplar sites. So, we're very keen to make sure that we use Welsh Government land to show people what can be done."*[91]

**168.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn bwysig diogelu'r cyllid ar gyfer rhyddhau tir fel:

> *"without it, we cannot deliver the 20,000 social homes for rent that we've committed to."*[92]

**169.** Bydd dyraniad refeniw o £1m yn cefnogi datblygiad Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol. Mae papur y Gweinidog yn nodi mewn perthynas ag Unnos:

> "Mae cytundeb eang bellach ar y gwaith uniongyrchol i ddatblygu Unnos, ac mae'r rhaglen waith yn cael ei datblygu.[93]

## Ein barn ni

**170.** Mae argaeledd tai fforddiadwy wedi cael ei godi'n gyson fel her drwy gydol ein gwaith polisi a chraffu ariannol sy'n gysylltiedig â thai. Rydym yn cydnabod y rhwystrau i ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd, gan gynnwys cynnydd mewn costau deunyddiau a materion yn ymwneud â chadwyni cyflenwi a'r gweithlu.

**171.** Rydym yn ddiolchgar am y diweddariad a ddarparwyd gan y Gweinidog yn ei llythyr ar 20 Rhagfyr 2023 ar y cynnydd a wnaed i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd i'w rhentu. Nodwn fod 5,575 o gartrefi wedi'u darparu tuag at y targed erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022-23.

**172.** Bydd hyn yn parhau i fod yn fater o ddiddordeb mawr i ni ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fonitro cynnydd o ran cyrraedd targed Llywodraeth Cymru. Byddem felly yn ddiolchgar am ddiweddariad pellach ar y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. Rydym eisoes wedi mynegi pryder ynghylch a yw'r targed o 20,000 o gartrefi newydd yn ddigonol a byddwn yn mynd ar drywydd hyn ymhellach pan fyddwn yn cynnal ymchwiliad i'r cyflenwad tai cymdeithasol yn ddiweddarach eleni.

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Gweinidog Newid Hinsawdd, pan fo'r wybodaeth ar gael, roi diweddariad i'r Pwyllgor hwn a r y cynnydd a waned yn ystod blwyddyn

[91] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 364
[92] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 364
[93] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Papur 3

ariannol 2023-24 i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o greu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd i'w rhentu.

**173.** Rydym yn croesawu'r dyraniadau ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gronfa Rhyddhau Tir ac ymrwymiad y Gweinidog i ryddhau tir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu tai safle enghreifftiol.

## Diogelwch adeiladau

**174.** Yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, mae gan ddiogelwch adeiladau ddyraniad refeniw o £4.5 miliwn yn 2024-25, sydd £1.5 miliwn yn llai na 2023-24, a dyraniad cyfalaf o £127.67 miliwn, sydd £7.33 miliwn yn llai na 2023-24, a £37.33 miliwn yn llai na'r ffigur dangosol. Nododd naratif y gyllideb ddrafft:

> *"mai nid gostyngiad yn yr ymrwymiad cyllidebol i'r gwaith yw hwn ond newid ym mhroffil y gyllideb sy'n adlewyrchu'n agosach pryd y bydd taliadau'n ddyledus:*
>
> *Gall yr amserlen ar gyfer y gwaith cymhleth hwn fod yn hir felly mae'r proffil diwygiedig - sef rhyddhau cyfalaf o £37m yn 2024-25 ar gyfer newid i refeniw - yn sicrhau bod gennym y swm cywir o arian ym mhob blwyddyn i dalu cost gwaith wedi'i gwblhau. Rydym wedi llwyddo i flaenoriaethu gwaith i ryddhau cyllid refeniw o £2m.*[94]

**175.** Fe wnaeth y Gweinidog ailadrodd hyn i ni, gan egluro bod gan bob adeilad preswyl 11 metr neu drosodd yng Nghymru "lwybr at waith adfer" erbyn hyn a bod yna raglenni ariannol amrywiol ar waith i gynorthwyo hynny. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn ofynnol i gwmnïau adeiladu mawr ymgymryd â'r gwaith ar eu traul eu hunain a bod Llywodraeth Cymru yn ariannu adeiladau cymdeithasol, adeiladau 'amddifad' ac yn rhoi cymorth i rai datblygwyr llai.[95] Eglurodd y Gweinidog nad yw'n bosibl ymgymryd â'r gwaith adfer sydd ei angen ar draws pob adeilad ar yr un pryd:

> *"We have neither the workforce nor the supply chain to do that. So, this is about making sure that the budget spend reflects*

[94] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[95] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 372

> *over the years when those buildings are likely to go into remediation."*[96]

**176.** Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai cyllidebau ar gyfer y dyfodol ar gyfer "y tair i bum mlynedd nesaf" yn cynnwys dyraniadau ar gyfer gwaith adfer diogelwch adeiladu ond pwysleisiodd nad oedd "o angenrheidrwydd yn dweud" y byddai'n rhaid i bobl sy'n byw yn yr adeiladau aros pum mlynedd i'r gwaith gael ei wneud, gan ychwanegu:

> *"as we work with the developers to bring those buildings forward, we'll be able to give people a better understanding of where they are in the programme."*[97]

### Ein barn ni

**177.** Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ailadrodd ei hymrwymiad yn gyson i sicrhau bod gwaith adfer yn cael ei wneud ar yr holl adeiladau preswyl uchel yr effeithir arnynt ledled Cymru ac rydym yn croesawu'r cyllid yn y gyllideb ddrafft hon a'r gwaith sydd eisoes wedi digwydd. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn parhau i fod yn gyfnod pryderus iawn i bobl sy'n byw mewn adeiladau sydd wedi'u heffeithio yng Nghymru, a hefyd i lesddalwyr sy'n landlordiaid. Mae'r ansicrwydd sy'n wynebu'r rhai yr effeithir arnynt yn parhau i fod yn bryder i ni ac rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am sefyllfa cynlluniau adfer adeiladau preswyl uchel ledled Cymru.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr o gyflwr presennol y cynlluniau adfer ar gyfer adeiladau preswyl uchel a chynnydd gwaith adfer gan ddatblygwyr. Dylid darparu manylion hefyd ynglŷn â sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r dyraniadau ar gyfer diogelwch adeiladau yn y gyllideb ddrafft gyflawni'r gwaith adfer yn 2024-25.

## Safonau tai

### Safonau tai cymdeithasol a datgarboneiddio

**178.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dyraniad cyfalaf blynyddol o £108 miliwn drwy ei Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Bwlch Taliadau Gwaddoli i gynorthwyo landlordiaid i gyflawni a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Mae'r Llinell Wariant honno wedi aros

[96] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 373
[97] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 373

ar yr un lefel yn nhermau arian parod ers blynyddoedd lawer. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o waith SATC (65 y cant o gostau) yn cael ei gyllido gan y landlordiaid cymdeithasol eu hunain.

**179.** Mae Cymru Sero Net yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd mesurau ôl-osod i leihau faint o wres sy'n cael ei golli wedi eu cwblhau mewn tua 148,000 o gartrefi erbyn 2025. Ar gyfer tai cymdeithasol mae'r WHQS 2023 newydd, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yn codi safonau mewn nifer o feysydd gan gynnwys gofyniad bod yn rhaid i bob cartref fodloni EPC C erbyn mis Mawrth 2030, ac EPC A yn y tymor hwy.

**180.** Roedd ymateb Cartrefi Cymunedol Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid yn nodi:

> *"the social housing sector is still awaiting a decision on the long-term approach to decarbonisation at scale."*[98]

**181.** Mae Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 yn mynnu gwelliannau uchelgeisiol ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn ogystal â gofynion cynyddol ar gyfer lloriau, bioamrywiaeth a thlodi dŵr. Ar hyn o bryd nid yw'n cael ei ariannu i raddau helaeth. Ni ellir bodloni'r her heb fuddsoddiad a fydd yn ei dro yn rhoi hwb economaidd i'n cymunedau yn ogystal â chartrefi cynhesach, mwy ynni-effeithlon i denantiaid.

**182.** Rhenti yw incwm landlordiaid cymdeithasol yn bennaf, ac mae hyn yn ddarostyngedig i Safon Rhent a Thaliadau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru sy'n cyfyngu ar gynnydd mewn rhent. Ar gyfer 2024-25 mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y cynnydd uchaf yn y rhent ar 6.7 y cant, ar ôl ei osod ar 6.5 y cant ar gyfer 2023-24. Mae disgwyl i'r Safon bum mlynedd ddod i ben yn 2025, ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyhoeddiad am ei holynydd eto.

**183.** Roedd ymateb Sefydliad Tai Siartredig Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

> *"Continue to work collaboratively with housing providers to ensure a fair and equitable rent settlement that ensures rents are affordable for tenants whilst enabling social landlords to generate a level of income that can be invested in the delivery*

[98] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB 24-25 26 Cartrefi Cymunedol Cymru

> *of core services and meet Welsh Government ambitions around development and decarbonisation."*[99]

**184.** Mae dyraniad cyfalaf o £92 miliwn a dyraniad refeniw o £1.67 miliwn i gefnogi datgarboneiddio preswyl. Mae papur y Gweinidog yn nodi y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gefnogi'r sector tai cymdeithasol drwy ddarparu'r Rhaglen Ôl-ffitio er mwyn Optimeiddio, yn ogystal ag ariannu'r Ganolfan Perfformiad Sero Net Tai sy'n darparu cymorth technegol i'r sector ar draws pob deiliadaeth.

**185.** Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng "defnyddio incwm rhent tenantiaid presennol i adeiladu tai'r dyfodol". Ychwanegodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chymdeithasau tenantiaid a darparwyr tai i gyrraedd setliad rhent ar gyfer 2024-25 a dywedodd wrthym:

> *"this is the balance between us making sure that the current housing stock is fit for those people to inhabit, and that they're getting a good return for their rent, if you like, and also that it's an investment in the future. So, we think we've hit the right balance there with the decarbonisation programme, the fuel efficiency programmes and the repair and maintenance programmes."*[100]

**186.** Wrth gyrraedd uchafswm cynnydd rhent o 6.7 y cant, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn awyddus iawn i sicrhau nad oeddem yn achosi i bobl fod mewn tai anfforddiadwy, gan sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cynnal eu gallu i fodloni eu gofynion rhaglen adeiladu.[101] Pwysleisiodd y Gweinidog mai uchafswm nid targed yw'r cynnydd mwyaf, gan ychwanegu:

> *"We do not expect people to put the rent up automatically by 6.7 per cent."*[102]

## Addasiadau

**187.** Mae'r Rhaglen Addasiadau Brys yn cael dyraniad cyfalaf o £19.5 miliwn a dyraniad refeniw o £5.1 miliwn yn 2024-25, yr un peth â 2023-24. Mae hyn yn

[99] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB 24-25 17 Sefydliad Tai Siartredig Cymru
[100] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 385
[101] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 389-390
[102] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 391

cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r rhaglen Galluogi gan ddefnyddio pwerau cymorth dewisol, yn hytrach na thrwy'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl statudol. Mae hefyd yn ariannu Gofal a Thrwsio i ddarparu mân addasiadau ac addasiadau ar gyfer cymdeithasau tai.

**188.** Mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, croesawodd Gofal a Thrwsio y cynnydd mewn cyllid a gawsant yn 2022-23, a gynhaliwyd yn 2023-24, a dywedodd fod hyn yn galluogi ehangu'r Rhaglen Addasiadau Brys i fynd i'r afael â chynnydd yn y galw. Fodd bynnag, mae'r cynnydd cyfalaf wedi cael ei wrthbwyso gan godiadau sy'n gysylltiedig â chwyddiant mewn costau, a chanfu arolwg o'r 13 asiantaeth Gofal a Thrwsio lleol y byddai angen £859,000 arall i ateb y galw am y flwyddyn bresennol.

**189.** Dywedodd Gofal a Thrwsio fod eu staff yn dod ar draws cartrefi anaddas yn rheolaidd a phroblemau difrifol sy'n parhau heb sylw oherwydd diffyg adnoddau. Fe wnaethon nhw alw am grant rhwyd diogelwch i unioni problemau difrifol a pheryglus.[103] Gwnaeth Age Cymru hefyd godi y mater o broblemau difrifol, gan nodi arolwg o 1,200 o bobl hŷn ledled Cymru a ganfu fod 25 y cant o bobl hŷn yn dweud bod trwsio tai yn her iddyn nhw eleni.

**190.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr egwyddor o gronfa i unioni gwaith atgyweirio peryglus yn cyd-fynd â'r egwyddor bod pobl yn byw'n annibynnol am gyfnod hwy, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau cymorth.[104]

## Ein barn ni

**191.** Roedd y Gweinidog yn glir na ddylai landlordiaid cymdeithasol gynyddu'r rhent i'w tenantiaid yn awtomatig gan yr uchafswm o 6.7 y cant y cytunwyd arno, ond rydym yn cydnabod, oherwydd pwysau chwyddiant, ei bod yn bosibl y bydd llawer yn gosod cynnydd yn agos at y lefel uchaf neu ar y lefel uchaf. Byddai'n ddefnyddiol i ni gael gwell dealltwriaeth o godiadau rhent ar draws y sector cymdeithasol, ond nid yw'r wybodaeth hon ar gael nac wedi'i chyhoeddi ar hyn o bryd yng Nghymru. Hoffem weld data ar godiadau rhent cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi fel y gwneir yn **Yr Alban**.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i sicrhau bod data ar godiadau rhent cymdeithasol ledled Cymru ar gael i'r cyhoedd.

[103] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB 24-25 28, Gofal a Thrwsio Cymru
[104] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 402

**192.** Rydym yn croesawu'r gwaith ardderchog a wneir gan Gofal a Thrwsio Cymru i alluogi pobl hŷn i fyw yn annnibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae gennym ddiddordeb yn y math o grant a awgrymwyd gan Gofal a Thrwsio Cymru i gywiro problemau peryglus yng nghartrefi pobl ac rydym yn credu bod teilyngdod mewn archwilio cyflwyno grant o'r fath.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Care and Repair Cymru i archwilio cyflwyno grant i gywiro problemau peryglus i alluogi pobl hŷn i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol ac i atal derbyniadau i'r ysbyty oherwydd damweiniau gartref.

## Gweithredu a datblygu deddfwriaeth

**193.** Mae'r Llinell yn y Gyllideb a gyfer Refeniw Polisi Tai wedi cael £1.368 miliwn, i lawr o £6.471 miliwn yn 2023-24. Mae hyn yn cefnogi nifer o gynigion deddfwriaethol, yn ogystal â chefnogaeth i beilot ail gartrefi Dwyfor a hyfforddiant gwrth-hiliaeth Rhentu Doeth Cymru i landlordiaid. Mae nifer o gynigion deddfwriaethol ym mhortffolio'r Gweinidog.

**194.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr arian a ddyrannwyd, hyd yma, yn ddigonol i gyflwyno'r ddeddfwriaeth, gyda'r cafeat na fydd y ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno tan flwyddyn ariannol 2025-26.[105]

[105] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, CyT, paragraff 411